



Yr Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol

Papur Testun Rhif 3 - Crynodeb

Cyflwyniad

Mae cysylltiad agos iawn rhwng safon dylunio a threftadaeth ac maent yn bwysig iawn gan eu bod yn cyfrannu at greu ymdeimlad o le a rhoi hunaniaeth unigryw i'n haneddiadau a'n hardaloedd gwledig. Mae'n bwysig diogelu'n treftadaeth i sicrhau bod y cenedlaethau a ddaw'n gallu mwynhau a dysgu drwy fanteisio ar yr adnawdd cyfoethog hwn.

Mae gan Sir y Fflint hanes cyfoethog ac amrywiol a chaiff hyn ei adlewyrchu yn ei hamgylchedd adeiledig a'i harchaeoleg, a dylid gwarchod hyn a'i ystyried wrth drafod datblygiadau newydd.

Y cyd-destun

Dylai unrhyw gynllun newydd fod o safon uchel a dylai geisio creu ymdeimlad o le a hunaniaeth drwy gydnabod nodweddion lleol. Dylai ystyried lleoliad a chyd-destun a pharchu sensitifrwydd trefluniau a thirweddau.

Yn ôl Polisi Cynllunio Cymru, dylunio yw'r 'berthynas rhwng holl elfennau'r amgylchedd naturiol ac adeiledig. I greu datblygiad cynaliadwy, rhaid i waith cynllunio fynd y tu hwnt i estheteg a chynnwys yr agweddau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd ar y datblygiad, gan gynnwys y modd y caiff ei adeiladu, ei weithredu a'i reoli, a'i berthynas â'i amgylchedd'.

Mae TAN12 yn nodi pum agwedd ar gynllunio da:

- Mynediad
- Cymeriad

- Diogelwch cymunedol
- Cynaliadwyedd amgylcheddol
- Symud

Gellir dylanwadu ar ansawdd y dylunio drwy ddeall ffurf a chyd-destun y lleoliad a'r ardal gyfagos.

Mae diogelu'r amgylchedd adeiledig yn ymwneud â rheoli'n hasedau hanesyddol yn ofalus – nid dim ond y rhai sydd wedi'u dynodi, ond y rhai nad ydynt wedi'u dynodi hefyd, gan fod yn rhain yn creu diddordeb ac yn dweud hanes anheddiad neu ardal. Mae posibilrwydd hefyd y caiff archaeoleg nas cofnodwyd i'r golwg, ac mae angen ystyried hyn wrth ystyried cynigion datblygu.

Mae asedau hanesyddol dynodedig yn cynnwys archaeoleg a henebion, adeiladau rhestredig, adeiladau o ddiddordeb lleol, ardaloedd cadwraeth a pharciau, gerddi a thirweddau hanesyddol. Mae hefyd yn bwysig ystyried lleoliad asedau treftadaeth.

Rôl y Cynllun

Mae sicrhau bod yr amgylchedd hanesyddol yn cael ei ddiogelu a bod datblygiadau newydd o safon yn cael eu creu yn allweddol i'r Cynllun. Mae'r ddau'n gysylltiedig a gellir defnyddio'r amgylchedd adeiledig fel sail i gynigion datblygu newydd. Bydd angen polisiau a chynigion yn y CDLI sy'n:

- Diogelu'r amgylchedd hanesyddol
- Cydnabod arwyddocâd y newidiadau i'r asedau hanesyddol, a'u cyfiawnhau

- Annog pobl i aildefnyddio adeiladau presennol a, lle bo hynny'n briodol, addasu'r rhain i leihau allyriadau CO2, o gofio nad yw dulliau adeiladu ac inswleiddio modern yn addas ar gyfer adeiladau traddodiadol.
- Rheoli newidiadau i'r amgylchedd hanesyddol yn sensitif
- Diogelu treftadaeth sydd mewn perygl
- Hyrwyddo amgylchedd adeiledig o safon
- Sicrhau bod datblygiadau newydd yn cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad ac arwahanrwydd, ac yn ei ddiogelu
- Ystyried pwysigrwydd AHNE
- Lliniaru achosion y newid yn yr hinsawdd a mynd i'r afael â nhw
- Hyrwyddo safonau adeiladau cynaliadwy uchel

Cynlluniau a Strategaethau Allweddol

- BS 79013-2013 Arweiniad i Ddiogelu Adeiladau Hanesyddol
- Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 61/96: Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth (2006)
- Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 1/98: Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Cyfarwyddyd Ysgrifennydd Gwladol Cymru
- Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 60/96: Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Archaeoleg
- Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 5 (2012)
- TAN 12 Dylunio (2009)
- TAN 22 Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy (2010)
- Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol Cymru, Cadw (2013)
- Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru yn Gynaliadwy (2011)
- Cofrestr Parciau a Gerddi Hanesyddol Cymru, Cadw
- The Setting of Heritage Assets: English Heritage Guidance (2011)

- Llawlyfr Strydoedd (2007)
- Llawlyfr Strydoedd 2 (2010)

Polisiau / Cynigion Posibl

Roedd 8 o bolisiau yn y bennod ar yr Amgylchedd Hanesyddol yn y CDU ac un Polisi Strategol yn ymwneud â'r amgylchedd adeiledig, yn ogystal â saith polisi yn y bennod ar Ddylunio. Fodd bynnag, mae rhai o'r canllawiau mewn dogfennau eraill ac mae'n bosibl cyfuno'r polisiau. Cynigir bod y polisiau a'r cynigion allweddol yn ymdrin yn gyffredinol â'r canlynol:

- Rhagdybiaeth o blaid diogelu, materion cadwraeth a, lle y bo'n briodol, gwella'r amgylchedd hanesyddol
- Sicrhau bod unrhyw newidiadau i'r amgylchedd hanesyddol yn cael ei wneud mewn modd sensitif
- Diogelu asedau treftadaeth sydd mewn perygl
- Diogelu elfennau nodedig o'r amgylchedd hanesyddol, sy'n creu ymdeimlad o gymeriad a hunaniaeth leol a, lle y bo'n briodol, ei wella.
- Cydnabod a datblygu'r posibilrwydd y gall treftadaeth a threfluniau gyfrannu at fuddion cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol ehangach
- Defnyddio dulliau adeiladu, defnyddiau a dyluniadau cynaliadwy sy'n addas ac yn sensitif i'r adeilad a'r ardal leol.
- Hyrwyddo amgylchedd adeiledig o safon
- Ystyried achosion ac effaith y newid yn yr hinsawdd